

Date: Dyddiad: 12 Tachwedd 2020

Ein Cyfeirnod: 201112/Williams K/PR/FC

Telephone: 0121 453 6150

Tel/Ffôn: 029 2054 6080

E-mail/E-bost: [nasuwat@mail.nasuwat.org.uk](mailto:nasuwat@mail.nasuwat.org.uk)  
Website/Gwefan: [www.nasuwat.org.uk](http://www.nasuwat.org.uk)

Kirsty Williams MS  
Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg  
Llywodraeth Cymru  
Bae Caerdydd  
Caerdydd  
CF99 1NA

General Secretary/Ysgrifennydd Cyffredinol: Dr Patrick Roach

Annwyl Kirsty,

## **Sicrhau bod ysgolion yn ddiogel yn ystod pandemig y Coronafeirws**

Drwy gydol cyfnod pandemig y Coronafeirws, mae addysg plant a phobl ifanc wedi bod o'r pwysigrwydd mwyaf i'r wlad yn ogystal ag i aelodau NASUWT. Mae athrawon a phrifathrawon wedi gweithio'n ddiflino drwy'r flwyddyn gyfan i sicrhau bod darpariaeth a chymorth addysgol o'r safon uchaf ar gael i bob plentyn, hyd yn oed yn ystod y cyfnod clo cenedlaethol pan gaewyd yr ysgolion yn y gwanwyn a'r haf.

Gyda'r ysgolion yn ail agor yn llawn yr hydref hwn, mae athrawon a phrifathrawon wedi dangos eu hymrwymiad i addysg y plant unwaith eto. Wrth i lefelau trosglwyddiad y Coronafeirws gynyddu'n gyflym yn y gymuned ehangach, mae athrawon, prifathrawon a staff cynnal wedi gweithio'n ddewr i gadw ysgolion yn agored yn ddiogel.

Fodd bynnag, gydag ail don o drosglwyddiad y firws, ni allwn anwybyddu pryderon yr athrawon am ddiogelwch. Mae athrawon a phrifathrawon yn adrodd yn gynyddol am lefelau uchel o straen a blinder o ganlyniad i geisio cynnal amgylchedd COVID-ddiogel mewn ysgolion a cholegau. Mae ein haelodau'n dweud eu bod yn ei chael hi'n anodd ymdopi gyda llawer iawn o bwysau ychwanegol ar eu llwyth gwaith sy'n cael effaith niweidiol ar eu gallu i barhau i ddarparu'r addysg y mae pob plentyn a pherson ifanc yn ei haeddu.

Mae'n amlwg na all athrawon addysgu ac na all blant ddysgu'n effeithiol pan fydd risg i'w hiechyd neu eu diogelwch. Mae pandemig y Coronafeirws wedi cael effaith ddigynsail ar addysg plant. Yn ein barn ni, heb raglen frys ac effeithiol o weithredu cenedlaethol a mesurau i sicrhau diogelwch a chynaliadwyedd y ddarpariaeth addysg yn ystod y pandemig, mae risg difrifol iawn y bydd llai o athrawon ar gael i barhau i addysgu ac y bydd mwy o ddisgyblion yn cael eu gorfodi i dreulio amser gartref o'r ysgol tra bydden nhw'n hunanyysu.

Mae NASUWT yn credu bod gan y Llywodraeth a'r cyflogwyr ddyletswydd bob amser, yn enwedig yn ystod yr argyfwng hwn, i wneud beth bynnag sy'n angenrheidiol i sicrhau, yn fwy na dim byd arall, bod ysgolion a cholegau'n fannau diogel ar gyfer addysgu a dysgu.

I'r perwyl hwnnw, mae NASUWT wedi ardystio'r rhaglen 10 pwynt atodedig o fesurau i alluogi i ysgolion ddarparu addysgu a dysgu diogel a chynaliadwy, a byddem yn eich cymell yn gryf i'w hystyried a'i gweithredu. Mae'r mesurau hyn wedi'u llunio i ddiogelu addysg plant a phobl ifanc gan sicrhau ar yr un pryd bod ein hysgolion a'n colegau'n gallu parhau i weithredu'n ddiogel er budd plant a phobl ifanc a'r gweithlu addysg, tra bydd y wlad yn parhau i gymryd y camau ehangach sy'n angenrheidiol mewn ymateb i fygythiad y pandemig ac er mwyn diogelu iechyd y cyhoedd.

Edrychwn ymlaen at y cyfle i drafod ein cynigion gyda chi ymhellach.

Yr eiddoch yn gywir,

A handwritten signature in black ink, appearing to read 'Patrick Roach', written in a cursive style.

Dr Patrick Roach  
**Ysgrifennydd Cyffredinol**